

# Llais y Cleifion

## Bwletin Newyddion

Rhifyn 39  
Hydref 2020

### Ry'n ni yma i chi o hyd!

Wyth mis ers dechrau pandemig COVID-19, mae ein swyddfa yn Nhŷ Rhaglan ar gau o hyd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Er bod y swyddfa ar gau, **mae ein gwasanaethau ar agor ac yn gwbl weithredol** ar gyfer busnes fel arfer. Mae'r holl staff yn gweithio gartref ac yn parhau i gefnogi cleifion a'r cyhoedd. Caiff holl gyfarfodydd y Pwyllgor sydd wedi'u trefnu eu cynnal dros Microsoft Teams. Gallwch ddod o hyd i'n holl gyfarfodydd sydd wedi'u trefnu, y mae rhai ohonynt yn agored i'r cyhoedd, ar ein gwefan <https://aneurinbevancic.gig.cymru/amdanom-ni/ein-cyfarfodydd/>

### Lansio gwefan newydd!

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi lansiad ein gwefan newydd. Mae ein gwefan newydd yn hawdd ei defnyddio ac mae'n llawn gwybodaeth i gleifion a'r cyhoedd yng Ngwent. Felly beth am ymweld â ni yn rhithwir yn [www.aneurinbevancic.gig.cymru](http://www.aneurinbevancic.gig.cymru).

### Aelod gwirfoddol newydd

Ym mis Hydref 2020, gwnaethom groesawu aelod newydd, sef Mr Peter Hayes. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn aelod o'r CIC, cysylltwch â ni.

### Dolenni defnyddiol am y Coronafeirws:

- Llywodraeth Cymru – Rheoliadau'r Coronafeirws: cwestiynau cyffredin: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-aros-gartref-chadw-draw-oddi-wrth-bobl-eraill?>
- Ymweld ag ysbytai yn ystod y coronafeirws: <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau>



# Mae Ysbyty Athrofaol y Faenor bellach wedi

Llongyfarchiadau i bawb ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar agoriad Ysbyty Athrofaol y Faenor. Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn gyffrous iawn o fod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gorau posibl y GIG ar gyfer preswylwyr Gwent.



Mae'r cyfleuster newydd wedi'i leoli yn Llanfrechfa, ar gyrion Cwmbrân, ac mae'n darparu gofal brys ac yn cyfuno'r gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni.

Mae gan y safle 60 erw 471 o welyau a chyfleuster asesu brys 24 awr, cyfleusterau gofal dwys, cyfleusterau diagnostig cynhwysfawr, gwelyau i gleifion mewnol ar gyfer achosion brys difrifol, llawdriniaethau cymhleth a theatrau.

Bydd cartrefi ledled Gwent wedi cael taflen **"Mae eich Gwasanaethau GIG yng Ngwent yn newid"** sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am newidiadau i wasanaethau. Ceir copi o'r daflen ar wefan y Bwrdd Iechyd: [Llyfryn Gwybodaeth Dyfodol Clinigol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(gig.cymru\)](http://Llyfryn Gwybodaeth Dyfodol Clinigol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gig.cymru))



Cysylltwch â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan drwy e-bost: [engagement.abb@wales.nhs.uk](mailto:engagement.abb@wales.nhs.uk) os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ysbyty Athrofaol y Faenor neu unrhyw un o'r ysbytai eraill.



# Diweddariadau'r

## Gweithio gyda'n gilydd

### Ymgysylltu â Chleifion Mewnol yn Rhithwir

Yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020, datblygodd y CIC a'r Bwrdd Iechyd brosiect ar y cyd, sef "Ymgysylltu â Chleifion Mewnol yn Rhithwir" a'i roi ar waith, lle roedd ein haelodau yn ymgysylltu â chleifion ar wardiau ysbytai drwy FaceTime.



Roedd y prosiect yn llwyddiant ysgubol ac yn enghraifft wych o'r ffordd mae'r CIC a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd.

Bu cyfathrebu rhagorol yn ystod y prosiect, ac roedd hefyd yn agored ac yn adeiladol, gyda phawb yn ymrwymedig i'w wneud yn llwyddiant. Pan godwyd pryderon, ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn brydlon iawn gan eu huwchgyfeirio fel y bo'n briodol. Bydd adroddiad llawn ar gael yng nghylchlythyr y gaeaf.



## Ymgysylltu â phobl gartref

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein prosiect Ymgysylltu â Chleifion Mewnol yn Rhithwir, yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020, mae'r CIC a'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i gynnal prosiect tebyg yn ymgysylltu â phobl yn rhithwir a oedd yn cael gofal gartref. Edrychwn ymlaen at fynd ati i gydweithio ymhellach er mwyn helpu cleifion a'r cyhoedd i rannu eu barn.



**Gwefan:**

[www.aneurinbevancic.gig.cymru](http://www.aneurinbevancic.gig.cymru)



**Ffôn:**

**01633 838516**



**E-bost:**

[enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk](mailto:enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk)



# Arolygon i rannu eich profiadau a'ch safbwyntiau...

## Apwyntiadau Rhithwir

Mae Covid-19 wedi newid y ffordd y mae'r GIG yn cynnal apwyntiadau.



Ydych chi wedi cael apwyntiad rhithwir yn ddiweddar gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol? Hoffem glywed am eich profiad o ddefnyddio'r dull hwn o gynnal apwyntiadau drwy gwblhau ein harolwg byr [yma](#)

## Gofal y GIG yn ystod y Coronafeirws



Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ysgrifennu atom i rannu eu profiadau o ddefnyddio'r GIG yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Caiff eich adborth ei ddefnyddio i helpu'r GIG i ddysgu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion a'r cyhoedd.

Rhannodd dros 20 o bobl eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn ystod pandemig COVID-19 yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020. Mae briffiad ar gael [yma](#) sy'n rhoi cipolwg o'r pethau mae pobl wedi sôn wrthym amdanynt.

Parhewch i rannu eich profiadau drwy gwblhau ein harolwg [yma](#)

**Bydd eich adborth yn helpu i wneud gwahaniaeth!**



Gwefan:

[www.aneurinbevancic.org.cymru](http://www.aneurinbevancic.org.cymru)



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

[enquiries.aneurinbevan@waleschc.org.uk](mailto:enquiries.aneurinbevan@waleschc.org.uk)



# • Diweddariadau'r CIC...

## Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd...

### CIC/Nyrso Ardal

Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2020, clywsom gan gleifion cymunedol sy'n cael gofal gan y gwasanaeth Nyrso Ardal drwy ein harolwg – bydd adroddiad llawn ar gael yng nghylchlythyr y gaeaf.



### Ward Rowan, Ysbyty'r Sir

Drwy gydol mis Gorffennaf hyd at ddiwedd mis Medi 2020, clywsom gan gleifion a oedd yn aros ar Ward Rowan yn Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl drwy ein harolwg. Yn gyffredinol, roedd y bobl yn fodlon ar eu cyfnod ar Ward Rowan. Cafodd unrhyw sylwadau negyddol a gafwyd eu rhannu â'r Bwrdd Iechyd ac aethpwyd i'r afael â nhw'n brydlon. Gweler yr adroddiad llawn [yma](#)

### Ward Phoenix a Ward Usk, Ysbyty'r Sir

Yn dilyn llwyddiant ymarfer ymgysylltu Ward Rowan, bydd prosiect tebyg yn cael ei gynnal ar Ward Phoenix a Ward Usk yn Ysbyty'r Sir yn ystod mis Tachwedd 2020. Bydd adroddiad llawn ar gael yng nghylchlythyr y gaeaf.



**Gwefan:**

[www.aneurinbevancic.gig.cymru](http://www.aneurinbevancic.gig.cymru)



**Ffôn:**

**01633 838516**



**E-bost:**

[enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk](mailto:enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk)

# • Diweddariadau'r CIC...

## Gwasanaeth Eiriolaeth CIC

Rhwng 1 Hydref a 30 Tachwedd 2020, cafwyd 27 o gwynion ac ymholiadau newydd. Mae gennym 140 o achosion ar agor ar hyn o bryd, sy'n gynydd ers y cylchlythyr diwethaf. Y pum prif wasanaeth gofal iechyd sy'n ymddangos yn y pryderon agored hynny yw Practisau Cyffredinol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, Obstetreg, Trawma ac Orthopoddeg ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.



## Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

Hoffai Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl Wirfoddolwyr, Rhanddeiliaid, Cleifion a'r Cyhoedd. Cymerwch ofal a chadwch yn saff.

## Rydym ar y Cyfryngau Cymdeithasol!

### Facebook!



Ewch i'n tudalen Facebook [yma](#) neu chwiliwch am "CIC"



### Twitter!



Ewch i'n tudalen Twitter [yma](#) neu chwiliwch am @bevanhc

### Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.